

Cofnodion Pwyllgor Clwb Mynydda Cymru a gynhaliwyd ar nos Lun, 15ed Ionawr 2018 yn Ystafell Nantlle, Plas y Brenin, Capel Curig

Presennol: Sian Shakespear (SS) – Cadeirydd, Iolo (IPR), Eryl (EO), Gwyn (GW), Myfyr (MT), Dwynwen (DP), Eirwen (EW), Iolo (ap Gwynn) (IAG), Elen (EH), Dilys (DAP), Steve (SW)

Ymddiheuriadau: Dewi, Raymond, Richard

1.	<p><u>CROESO</u></p> <p>Estynnodd SS groeso cynnes i DAP a SW i'w cyfarfod cyntaf o'r pwyllgor</p>
2.	<p><u>COFNODION</u></p> <p>Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 25ain o Fedi, 2017 fel rhai cywir.</p> <p>Yn codi</p> <p><u>Eitem 4 Darlith Goffa Llew ap Gwent</u></p> <p>Cymal 4.2 Nodi mai at Gwyn ac nid Sian y cyfeirir yma.</p> <p><u>Eitem 5 Cyfarfod Blynyddol 2017</u></p> <p>Cytunwyd yn sgil llwyddiant yr arbrawf o ddiwygio trefn y Cyfarfod Blynyddol y dylid cadw at y drefn ddiwygiedig i'r dyfodol.</p> <p><u>Eitem 6 Canllawiau i arweinyddion teithiau</u></p> <p>Cafwyd trafodaeth ar y ffordd orau o gael manylion cyswllt aelodau oedd yn mynychu teithiau rhag ofn y byddai argyfwng yn codi.</p> <p>Cytunwyd (i) mai'r ffordd orau i wneud hyn fyddai i arweinydd y daith gael rhestr o enwau a rhifau ffôn cyswllt ar gychwyn y diwrnod.</p> <p>(ii) gofyn i EO sicrhau bod y canllawiau i arweinyddion yn nodi hyn.</p>
3.	<p><u>ADRODDIAD Y TRYSORYDD</u></p> <p><u>Cyfrif Banc y Clwb</u></p> <p>Adroddodd DAP</p> <p>fod trosglwyddo'r cyfrifoldeb ar gyfer cyfrif banc y Clwb bellach wedi ei gwblhau a'i bod yn ddiolchgar iawn i Gareth (y cyn drysorydd) am yr holl gymorth a gafodd ganddo.</p> <p>ei bod hi, Richard (RR), Iolo (IR) a Gareth (GER) bellach â hawl llofnodi ar gyfer y cyfrif. Bydd ganddi hi a RR hawl mynediad i'r cyfrif drwy'r rhyngwyd.</p> <p><u>Aelodaeth</u></p> <p>Adroddodd fod 258 eisoes wedi adnewyddu eu haelodaeth ar gyfer 2018 drwy daliad gorchymyn banc gyda 19 aelod gyda GO a fydd yn dod i fewn yn ddiweddarach yn ystod y flwyddyn. Yn ogystal derbyniwyd 7 taliad lle nad oes manylion am yr aelod ac mae 10 unigolyn yn talu llai na'r tâl aelodaeth o £15.</p> <p>Cytunwyd</p> <p>(i) Yn y rhestr aelodau a yrrir i'r Cyngor Mynydda Prydeinig (CMP) dylid cynnwys y 258 aelod oedd eisoes wedi talu a'r 19 aelod lle nad oedd y GO wedi dod i fewn eto ond gellid eu cynnwys gan fod y taliad yn eitha pendant.</p> <p>(ii) gofyn i DAP gysylltu â'r 10 aelod oedd yn talu llai na £15 yn egluro'r sefyllfa iddynt a gofyn os y dymunant barhau i fod yn aelod o'r Clwb a chynyddu eu taliad er mwyn bod yn aelod llawn a gallu mynychu teithiau neu a oeddynt yn gweld eu taliad fel cyfraniad i goffrau'r Clwb yn unig.</p>

(iii) dylai gylchredeg y rhestr o enwau lle nad oes manylion amdanynt i'r swyddogion eraill rhag ofn y gallant daro unrhyw oleuni arnynt.

Ffurflen Ymaelodi

Cytunwyd ag awgrym DAP y dylai 'r ffurflen ymaelodi a ffurflen sefydlu Gorchymyn Banc gael eu cyplysu ar un ffurflen er mwyn hwyluso trefniadau

Gofyn i DAP drafod hefo RR yn y lle cyntaf os y byddai yn fodlon derbyn y ffurflen ymaelodi gan ddarpar aelodau gan ei bod hi i fwrdd an gyfnodau sylweddol ar rai adegau o'r flwyddyn

Tâl Aelodaeth

Adroddodd DAP fod £14.25 o £15 tâl aelodaeth y Clwb yn cael ei drosglwyddo i'r CMP bellach. Gan fod costau gweinyddol y Clwb yn oddeutu £700 y flwyddyn, doedd y swm oedd yn weddill ddim yn ddigonol i gwrdd â'r gwariant yma. Roedd gan y Clwb falans o £5k yn y cyfrif ac efallai y gellid ystyried ei ddefnyddio am gyfnod ond byddai angen datrysiaid tymor hir i'r sefyllfa.

Cytunwyd y dylid ystyried y mater eto yn y cyfarfod ym mis Mai a gofyn i DAPedrych ar yr opsiynau canlynol a'u hobblygiadau:

Defnyddio arian cyfrif y Clwb
Codi'r tâl aelodaeth
Cofrestru'r Clwb fel elusen

Rheolau Diogelu Data

Adroddodd DAP fod rheolau newydd ar gyfer diogelu data yn dod i rym ym mis Mai a byddai disgwyl i'r Clwb gydymffurfio â hwy .

Byddai angen i'r Clwb

1. greu polisi diogelu data
2. beidio â datgelu cyfeiriadau e-byst aelodau
3. sicrhau bod trefn gadarn i ddellio ag aelodau oedd yn nodi nad oeddynt eisiau i'w manylion gael eu datgelu

Cytunwyd gofyn i DAP drafod y mater yma â swyddogion y CMP ac adrodd yn ôl i'r cyfarfod nesaf ym mis Mai.

4. Y WEFAN A CHYFRYNGAU CYMDEITHASOL

Cafwyd diweddariad gan IAG ar y gwaith a wnaed i ail-ddylunio gwefan y Clwb. Nodwyd fod ap newydd wedi ei datblygu hefyd i hwyluso mynediad i'r wefan o ffonau clyfar a thabledi. Adroddodd ar y ffigyrau diweddar am y defnydd o safleoedd y Clwb ar y cyfryngau cymdeithasol a bod Mari Huws yn gweithio ar ddatblygu cyfrif Instagram ar gyfer y Clwb.

Cytunwyd

- (i). diolch i IAG am ei holl waith gyda safle We y Clwb
- (ii). gofyn i bawb oedd yn dod ar draws gwybodaeth ar y Safle We nad oedd yn gyfredol/gywir bellach i hysbysu IAG
- (iii) gofyn i IR a EO roi hysbys am y datblygiadau gyda'r Wefan yn eu gohebiaeth â'r aelodau

5. EISTEDDFOD GENEDLAETHOL 2018 - DARLITH GOFFA LLEW GWENT

Adroddodd GW ei fod wedi holi trefnwyr yr Eisteddfod am safle i ddarlith y Clwb yn Eisteddfod 2018 a'i fod yn dal i ddisgwyl cynllun safle ganddynt ac ei fod yn anelu i gynnal y ddarlith ar y prynhawn dydd lau.

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â phwy i'w gwahodd/wahodd i roi'r ddarlith eleni. Doedd Bob Puw a gynigiwyd yn y cyfarfod diwethaf ddim yn gallu gwneud.

Cytunwyd

- i. os na byddai yn derbyn awgrym amgen erbyn diwedd yr wythnos, byddai SS yn gofyn i Richard Mitchley os y byddai'n fodlon rhoi'r ddarlith
- (ii). os na fyddai Richard yn gallu gwneud, gofyn i Dewi Hughes wneud ymholiadau ymhlith aelodau'r De i weld os oedd unrhyw un arall y gellid gofyn iddo/iddi.

6.	<p><u>SEFYDLU IS-BWYLLGOR POLISI A MATERION ALLANOL POSIBL</u></p> <p>Adroddodd SS ar y posibilrwydd o sefydlu Is-bwyllgor a allai roi sylw a mynegi barn ar faterion penodol yn codi gan adrannau'r Llywodareth a Chyrff Cyhoeddus eraill. Gan fod amser yn brin, yn aml iawn roedd yn anodd i'r pwyllgor wneud hyn er bod rhai o'r materion yn bwysig ac yn rhywbeth y dylai'r Clwb fod yn mynegi barn arno.</p> <p>Cyfeiriodd GW at ddogfen ymgynghorol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar ddyfodol y Parciau Cenedlaethol ac oherwydd yr amserlen ymgynghori doedd hi ddim yn bosib i'r pwyllgor allu ei ystyried. Yn aml iawn hefyd roedd y CMP yn codi materion o bwys a oedd yn teilyngu sylw.</p> <p>Cytunwyd y dylid cyfeirio'r mater i sylw'r Cyfarfod Blyneddol gan nodi os oedd cefnogaeth i sefydlu is-bwyllgor o'r fath. Ni fyddai'n rhaid i'w aelodaeth fod yn aelodau o'r pwyllgor o anghenrheidrwydd.</p>
7.	<p><u>DATHLIADAU PENBLWYDD Y CLWB YN 40 YN 2019</u></p> <p>Adroddodd SS fod y pwyllgor wedi cytuno y dylid dathlu penblwydd y Clwb yn 40 yn 2019 yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llanrwst. Un opsiwn a awgrymwyd oedd y posibilrwydd i'r Clwb noddi'r Fedal Ryddiaith.</p> <p>Cytunwyd dylai'r aelodau feddwl am syniadau ac y gellid dewis opsiynau yn y cyfarfod nesaf ym mis Mai</p>
8.	<p><u>CYNLLUNIO RHAGLEN WEITHGAREDDAU'R CLWB</u></p> <p>Adroddodd EO ei fod wedi dechrau paratoi rhaglen ar gyfer y cyfnod Mai i Medi 2018 a gofynnodd i aelodau gysylltu os oedd ganddynt syniadau neu awgrymiadau am deithiau.</p> <p>Adroddodd SS ei bod wedi cynnal trafodaethau hefo swyddogion yr Urdd a oedd yn awyddus i gynnal diwrnod blasu eto eleni yn dilyn llwyddiant y diwrnod y llynedd. Yr unig broblem eleni oedd bod yr Urdd wedi gofyn os y byddai'n bosib cynnal y diwrnod ar ddydd Sul 29 Ebrill yn lle diwrnod Calan Mai.</p> <p>Cytunwyd</p> <p>(i). cefnogi'r syniad o gynnal diwrnod blasu ar y cyd hefo'r Urdd eto eleni ac awgrymu'r teithiau canlynol: Gogledd – Moel Siabod Canolbarth – Pumlumon De – Fan Frynych a Chraig Cerrig Gleisiad (wedi trafod hefo Dewi Hughes)</p> <p>(ii). oherwydd y llwyddiant y llynedd a chan fod y Clwb yn darparu arweinwyr ar gyfer y teithiau, dylid mynd yn ôl at swyddogion yr Urdd a nodi fod y pwyllgor o'r farn y byddai'n well ei gynnal eto ar ddiwrnod Calan Mai</p>
9	<p><u>TAITH FLYNYDDOL Y CLWB I'R ALBAN</u></p> <p>Adroddodd EO fod Stephen Jones o gwmini Anelu wedi cysylltu yn cynnig cwrs dau ddiwrnod ar sgiliau mynydda gaeaf ar ddyddiau Llun a Mawrth taith y Clwb i'r Alban ym mis Chwefror. Byddai'r cwrs ar gyfer rhai di-brofiad ond byddai hefyd yn gyfle i eraill atgyfnerthu eu sgiliau. Roedd hefyd yn cynnig darlith gyda'r nos ar y ddwy noson i gyd fynd â'r cwrs. Byddai'r cwmni yn codi tâl am hyn, ond heb bennu swm eto. Byddai'n swm y pen ac felly'n naturiol yn gostwng os y byddai nifer sylweddol o aelodau hefo diddordeb.</p> <p>Roedd EO wedi cael gair hefo Maldwyn, trefnydd yr wythnos, a doedd ganddo ddim gwrthwynebiad.</p> <p>Yn y drafodaeth ar hyn roedd yna deimlad ei bod yn hwyr yn y dydd i ddisgwyl i'r rhai oedd eisoes wedi rhoi eu henwau i lawr i fynd i'r Alban dalu am gwrs o'r fath (ond y dylent gael gwybod am y cynnig rhag ofn bod diddordeb) nac i'r Clwb allu cefnogi menter o'r fath. Gan fod llefydd gweigion yn dal ar gyfer yr wythnos, byddai EO yn e-bostio pawb i ddweud hynny a nodi y posibilrwydd o hyfforddiant i rai di-brofiad am gôst ychwanegol os y dymument fentro i'r Alban eleni</p>
10	<p><u>CYFARFOD NESAF Y PWYLLGOR</u></p> <p>Cytunwyd y bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar nos Lun 14 Mai 2018 yng Nghapel Curig os yn bosib.</p>